

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWYD AR NOS LUN 25AIN O DACHWEDD 2019 YN YSGOL BRO CINMERCH, LLANRHAEADR AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Cynghorwyr Elfed Williams (Cadeirydd), Philip Williams, Stanley Williams, Iwan Jones, Arwel Davies, Bari Evans a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Falmai Evans, Geraint Jones, Hywel Davies a'r Cynghorydd Sir Ddinbych Joseph Welch.

2. DDATGAN DIDDORDEB.

Dim yn codi.

3. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 28ain o Hydref 2019 a arwyddwyd gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn edrych i mewn i faterion y Gymuned a chodwyd gan y Cyngor Cymuned dros y misoedd diweddar.

B. Derbyniwyd cadarnhad mi fydd Darren Millar, Aelod y Cynulliad dros Orllewin Clwyd, yn mynychu'r cyfarfod mis Mawrth 2020 y Cyngor.

5. SEDD WAG Y CYNGOR.

Derbyniwyd CV oddi wrth Mrs Ceri Davies, Fferm Meifod, Saron ynghyn ar lenwi'r sedd wag sydd yn bodoli ar y Cyngor. Penderfynwyd yr aelodau i dderbyn yr wybodaeth ac i wahodd Mrs Davies i fod yn aelod o'r Cyngor.

6. WEFAN Y CYNGOR.

Derbyniwyd pris am adnewyddu'r Wefan y Cyngor oddi wrth Hannah Gwenllïan o Gwmni H G Web Design o Bala am £300 sef:-

A: Ar gyfer creu gwefan i'r Cyngor dyma bris ar eich cyfer £150 am y tair tudalen gyntaf

B. £100 am brynu a hostio www. yn flynyddol.

C. £50 am ddiweddarau yn flynyddol.

Penderfynwyd yr aelodau i dderbyn y pris ynghyd ar wybodaeth a rhoi caniatâd i Hannah Gwenllïan fwrw ymlaen gyda'r gwaith.

7. CYLLID.

A. Datganiad Banc £13,862.60.

B. Penderfynwyd yr aelodau i dalu'r canlynol:-

1. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 31ain o Rhagfyr 2019 £480.00.

2. HM Revenue & Customs am dreth y cyflog am y chwarter yn diweddu 31ain o Rhagfyr 2019 £120.00.

3. Cynghorydd Philip Williams am gostau teithio i'r Cyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru ar 5ed o Hydref 2019 £97.00.

4. HG Web Design am adnewyddu'r Wefan y Cyngor £300.00.

8. CEISIADAU CYNLLUNIO.

Nid oedd gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

A: Planning Application: 23/2019/0984 - Erection of extensions to dwelling at 2 Llwyn Bach Cottages, Llanrhaeadr.

B. Planning Application: 23/2019/0971 - Change of use of parts of ground and first floors from Non-Residential Institution (Class D1) to Business (Class B1) use at Lanrhaeadr Springs, Llanrhaeadr.

9. GOHEBIAETH.

A: Derbyniwyd manylion cyfarfod cyhoeddus a threfnwyd gan Gyngor Sir Ddinbych ynglŷn â "Band Eang" yng Nghanolfan Cae Cymro, Clawddnewydd ar fore Gwener 6ed o Rhagfyr 2019.

B. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

10. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc adroddi'r materion ffyrdd canlynol y gymuned at Gyngor Sir Ddinbych.

A: Cyflwr y ffordd rhwng Bryn Mulan a Tyn-y-Ffordd ym Mhrion.

B. Cyflwr y ffordd heibio Fferm y Coleg a Pen-y-Gerddi ym Mheniel.

C. Twll yn y ffordd wrth Hafan, Llanrhaeadr.

11. MATERION BRYD O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

A. Derbyniwyd gwybodaeth trwy'r Cynghorydd Bari Evans mi fydd cais am gefnogaeth arian oddi wrth deulu William Bishop o Lanrhaeadr yn gofyn am gefnogaeth arian tuag at gadair olwyn chwaraeon newydd arbennig.

B. Rhoddwyd dymuniadau da i'r Cynghorydd Elfed Williams yn yr Etholiad Cyffredinol ar 12fed o Rhagfyr 2019.

12. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 27ain 2 Ionawr 2020 yn Ysgol Pant Pastynog, Prion am 7.30 o'r gloch.